



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Nebo  
Nebo  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL54 6EE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

## Cyd-destun

Ysgol fechan yw Ysgol Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes yng Ngwynedd. Daw mwyafrif helaeth o'r disgyblion o'r pentref ei hun. Mae'r ardal yn un wledig a Chymreig. Mae 54% o'r plant yn dod o gartrefi Cymraeg. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 28 disgybl ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 2 o blant meithrin sy'n mynychu am ddwy awr yn y boreau. Mae 7.7 % o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol cinio am ddim, sy'n sylweddol is na'r ffigurau sirol a chenedlaethol.

Mae dwy athrawes amser llawn a dwy athrawes ran-amser yn addysgu'r disgyblion. Ar hyn o bryd mae 9 disgybl (31%) ar y gofrestr anghenion arbennig.

Mae newid wedi bod yn staff rheoli'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf. Bu'r pennaeth yn gweithredu fel pennaeth mewn gofal am dair blynedd cyn cael ei phenodi i'r swydd ym Medi 2011.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl yn 2011-2012 ar gyfer Ysgol Nebo yw £4,757. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £7,732 a'r isafswm yw £2,745. Mae Ysgol Nebo yn 18fed allan o 102 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd yn nhermau cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Nebo yn dda gan fod:

- patrwm clir o welliant yn y Cyfnod Sylfaen yng nghyflawniad y disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf;
- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ym medrau llythrennedd;
- safon yr addysgu yn gyson dda ac fe wneir defnydd effeithiol o'r cymorthyddion i gefnogi'r dysgu;
- yr ysgol yn darparu profiadau eang a gwerthfawr i ennyn diddordeb y disgyblion;
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n hyrwyddo agweddau o les y disgyblion yn dda; a bod
- llais y disgyblion yn cael lle amlwg ym mywyd yr ysgol.

Er hynny:

- nid yw'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cael eu herio'n ddigonol er mwyn cyflawni gystal ag y dylent;
- nid yw'r profiadau dysgu'n rhoi digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda gan fod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei rhannu â holl randdeiliaid yr ysgol;
- cynnydd arwyddocaol yn neilliannau'r disgyblion dros gyfnod o dair blynedd; a bod
- strategaethau gwella a luniwyd gan y pennaeth yn dechrau cael effaith ar gyflawniad y disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw'r ysgol yn defnyddio'r dystiolaeth o hunanarfarnu yn ddigon trylwyr i bennu targedau heriol a phenodol ar gyfer gwella; ac
- nid yw'r targedau'n ddigon meintiol, ac o ganlyniad, nid yw'n hawdd i'r llywodraethwyr adolygu'r cynnydd.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

R1 wella cyflawniadau'r disgyblion ar y lefelau uwch yn y ddau gyfnod allweddol;

R2 sicrhau darpariaeth gyson ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm;

R3 darparu cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith ar draws ystod o bynciau;

R4 sicrhau fod hunanarfarnu'r ysgol yn fwy arfarnol er mwyn mireinio blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol; a

R5 datblygu rôl y llywodraethwyr fel 'cyfeillion beirniadol'.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae pob disgybl ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a hyderus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y medrau llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar iaith lafar dda ac maent yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen llyfrau sy'n briodol i'w hoed a'u gallu gyda dealltwriaeth gadarn o eirfa a chyd-destun. Gall y mwyafrif o'r disgyblion drafod y cynnwys gyda pheth manylder.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Maent yn dechrau defnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg yn eu gwaith. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu ysgrifennu dilyniant o frawddegau'n annibynnol gan ddangos dealltwriaeth o atalnodi sylfaenol. Er hynny, nid yw'r plant mwy abl yn gwneud digon o gynnydd yn ysgrifennu'n rhydd ac estynedig.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yn y ddwy iaith gan ddarllen yn ystyrlon a chyda mynegiant. Gallant fynegi barn, rhagfynegi a sôn am eu hoff lyfrau gan ddefnyddio iaith lafar naturiol. Mae uwch fedrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith wrth iddynt ymchwilio am wybodaeth benodol. Mae'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol yn eu darllen yn gwneud cynnydd da.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau gyda hyder a chywirdeb. Mae gan y mwyafrif afael cadarn ar gystrawen yn y Gymraeg a'r Saesneg. At ei gilydd, maent yn defnyddio atalnodi cywir, yn trefnu eu gwaith yn baragraffau ac yn datblygu eu hysgrifennu i wahanol gynulleidfaoedd yn effeithiol. Er hynny, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o ddefnydd o ail ddrafftio i wella eu hymdrechion cyntaf. Nid yw'r gallu i ysgrifennu'n estynedig wedi ei ddatblygu'n llawn ar draws ystod o bynciau.

Gan fod niferoedd bach mewn carfannau ar ddiwedd cyfnod allweddol mae angen bod yn ofalus wrth ymateb i ddata perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae patrwm clir o welliant yng nghyflawniad y disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau disgyblion saith oed yn 2011 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg mewn cyfuniad o Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Tros y ddwy flynedd ddiwethaf mae perfformiad y disgyblion yn uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn mathemateg ac yn uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn gwyddoniaeth dros dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

O gymharu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg o ran cinio rhad ac am ddim, mae cyflawniad y disgyblion wedi amrywio o'r 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth dros y pedair blynedd.

Mae cyflawniadau disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 mewn cyfuniad o Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn dwy allan o'r pedair blynedd diwethaf. Mae cyflawniad y disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

O gymharu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg o ran cinio rhad ac am ddim, mae cyflawniad y disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim dros dreigl o bum mlynedd. Dros gyfnod o amser, nid oes patrwm amlwg rhwng cyflawniad y bechgyn a'r merched nac ychwaith rhwng cyflawniad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.

### **Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae ymddygiad pob disgybl mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn, gyda bron pob un yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn canolbwyntio ar eu tasgau'n briodol. Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion hynaf yr ysgol y medrau priodol sy'n eu helpu i wella eu dysgu eu hunain. Mae'r awyrgylch ac ethos yr ysgol yn hyrwyddo parch tuag at eraill. Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn foesgar a chwrtais, yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mynegi barn yn effeithiol ac yn cyfrannu'n briodol at weithgareddau'r ysgol. Drwy'r cyngor ysgol, grŵp gwyrdd, holiaduron a thrafodaethau dosbarth, mae llais y disgybl yn cael lle amlwg yng ngweithdrefnau'r ysgol.

Mae gan y disgyblion oll ymagweddau aeddfed sy'n sylfaen dda ar gyfer datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd. Trwy'r fenter 'O'r Pridd' mae medrau cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn cael eu meithrin a'u datblygu'n dda. Maent yn datblygu eu hyder drwy gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned megis croesawu henoed yr ardal i'r ysgol yn rheolaidd.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol yn eu lle. Mae'r ysgol yn darparu profiadau amrywiol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Trefnir ymweliadau addysgol a gweithgareddau tu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n cyfrannu i

ddatblygiad personol y disgyblion. Mae'r defnydd a wneir o'r ardal leol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion o bob oed yn gryfder.

Mae'r cynllunio bwriadus yn gosod amcanion clir ar gyfer datblygu llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau dysgu'n rhoi digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn targedu unigolion sydd angen cymorth ychwanegol yn llwyddiannus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad y disgyblion hyn. Er hynny, nid yw'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cael eu herio'n ddigonol er mwyn cyflawni gystal ag y dylent.

Mae'r ddarpariaeth yn dda ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cynnig modelau ieithyddol da. Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael sylw teilwng yng ngwaith yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i weithio gydag artistiaid, llenorion a beirdd lleol.

Mae ymrwymiad yr ysgol i egwyddorion Masnach Deg, Ysgol Eco a'r Ysgol Werdd yn effeithio'n gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang a datblygu cynaliadwy. Mae menter 'O'r Pridd' yn rhoi profiadau ymarferol cyfoethog i'r disgyblion o gynaliadwyedd.

### **Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm. Maent yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y disgyblion ac yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau addysgu i hyrwyddo dysgu effeithiol. Mae athrawon yn sicrhau bod y deilliannau'n dysgu'n glir ac yn cael eu rhannu'n rheolaidd gyda'r disgyblion yn ystod y wers. Cynllunnir gweithgareddau diddorol ac ysgogol a chaiff yr adnoddau eu defnyddio'n dda i atgyfnerthu'r dysgu.

Mae awyrgylch cefnogol a gweithgar yn bodoli yn y dosbarthiadau. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth o anghenion dysgu unigolion a grwpiau ac maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r cymorthyddion i gefnogi'r addysgu. Mae rheolaeth dosbarth yn dda yn y ddau gyfnod, ac mae elfen uchel o barch yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion.

Mae egwyddorion asesu ar gyfer dysgu ar waith ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y dysgu. Caiff gwaith mewn llyfrau ei farcio'n rheolaidd gyda sylwadau yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella. Er hynny, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb iddynt. O ganlyniad, nid yw'n galluogi'r disgyblion i wella a datblygu eu gwaith.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ethos cynhwysol a'r profiadau niferus oll yn hyrwyddo datblygiad personol ysbrydol moesol a diwyllianol yn llwyddiannus. Mae cwrtesi a pharch yn rhinweddau amlwg yn yr ysgol ac maent yn cael eu meithrin yn ddyddiol yn y gwasanaethau boreol ac amser cylch. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn ar bob achlysur ac mae'r Bwrdd Cinio Aur wythnosol yn fenter boblogaidd sy'n cael ei defnyddio'n wythnosol i wobrwyo disgyblion.



Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol. Mae'r ysgol yn dod i adnabod anghenion disgyblion yn fuan iawn ac yn dilyn y camau priodol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol i adnabod a chefnogi anghenion y disgyblion. Cedwir cofnodion pwrpasol a defnyddiol ac adolygir y cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd, gyda'r rhieni yn cael rôl weithredol yn y broses.

Mae gweithdrefnau effeithiol gan yr ysgol i sicrhau fod rhieni'n cysylltu'n brydlon â'r ysgol am absenoldeb eu plentyn.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos teuluol a gofalgarg. Drwy ddarparu gwaith ar ddinasyddiaeth fyd-eang mae'r ysgol yn ysgogi empathi a'r ymdeimlad o gydraddoldeb tuag at amrywiaethau. Mae pob disgybl yn cael ei barchu fel unigolyn a chaiff fynediad llawn a chyfartal i holl weithgareddau'r ysgol.

Mae cyflwr yr adeilad yn briodol ac yn cynnig dosbarthiadau a chyfleusterau sy'n bwrpasol ar gyfer nifer y ddisgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r adnoddau. Ceir arddangosfeydd symbylus ac ysgogol sy'n cefnogi'r addysgu a'r dysgu.

Caiff yr adeilad a'r tir eu defnyddio'n dda er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. Mae gan yr ysgol ardd bwrpasol sydd wedi ei chreu i gefnogi'r fenter 'O'r Pridd'. Gwneir defnydd effeithiol o'r ardal tu allan i ymateb i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mae ganddi adnabyddiaeth dda o'r ysgol ac mae'n cynnig cyfeiriad strategol cadarn i fywyd a gwaith yr ysgol.

Yn dilyn cyfnod o ansicrwydd a newid yn staffio'r ysgol, llwyddodd yr ysgol mewn amser byr i roi strategaethau ar waith sydd bellach yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a safonau'r disgyblion. Mae gan holl staff yr ysgol ddisgrifiadau swyddi clir ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Cefnogir datblygiadau proffesiynol parhaus yr athrawon yn effeithiol trwy system rheoli perfformiad yr ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o fywyd yr ysgol. Maent yn gefnogol iawn ac yn datblygu eu dyletswyddau'n briodol. Derbyniant adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac maent yn ymwybodol o rai agweddau ar y cwricwlwm sydd angen eu datblygu. Er bod ganddynt beth ddealltwriaeth o ddata, nid yw rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu'n ddigonol i herio'r ysgol ynglŷn â safonau.

Llwydda'r ysgol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol wedi mynd i afael â rhai o agweddau o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion drwy sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol ag ysgolion y dalgyloch ar ysgol uwchradd leol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cynnig profiadau ysgogol i ddisgyblion yr ysgol.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol adroddiad hunanarfarnu priodol sy'n adlewyrchu darlun clir a chywir o'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynnwys barn y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae hunanarfarnu yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol ac yn broses sy'n cynnwys dadansoddiad o ddata, arsylwi gwersi ac arfarnu gwaith y disgyblion. Mae'r ysgol wedi dechrau cynnwys y staff addysgu a'r llywodraethwyr yn y broses hon. Mae'r cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol. Er hynny, nid yw'r ysgol yn defnyddio'r dystiolaeth o hunanarfarnu yn ddigon trylwyr i bennu targedau heriol a phenodol ar gyfer gwella. Nid yw'r targedau'n ddigon meintiol, ac o ganlyniad, nid yw'n hawdd i'r llywodraethwyr adolygu'r cynnydd.

Mae'r ysgol yn rhan o nifer o gymunedau dysgu proffesiynol gydag ysgolion lleol sy'n gweithio ar agweddau o asesu ar gyfer dysgu a gwella gwaith ysgrifennu Saesneg y bechgyn. Mae'r rhwydweithiau hyn yn dechrau dylanwadu'n bositif ar y ddarpariaeth ac ar gyflawniad y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarnhaol iawn gyda rhieni a gofalwyr, gyda phob un ohonynt yn gefnogol i waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r ysgol uwchradd leol a'r ysgolion cynradd eraill sy'n ei bwydo. Mae cynllun trosglwyddo effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol. Mae'r ysgol wedi dechrau cydweithio ag athrawon yr ysgol uwchradd leol ar y dasg o gymedroli gwaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned leol. Mae aelodau o'r gymuned yn cael eu gwahodd i'r ysgol yn rheolaidd i sgwrsio gyda'r disgyblion ac i gymryd rhan mewn dathliadau diolchgarwch, Nadolig a Gŵyl Ddewi. Mae'r clwb garddio, gyda chymorth rhieni'r ysgol, yn gwerthu llysiau i aelodau'r gymuned yn nhymor yr haf. Mae hyn yn elfen gref o bartneriaethau'r ysgol â'r gymuned.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda Choleg Menai ac yn derbyn myfyrwyr ar gyrsiau gofal dysgu a datblygiad plant. Mae'r berthynas a'r cyd-eithio yn effeithiol rhwng yr ysgol a gwasanaethau addysg arbennig, seicolegwyr addysg, gwasanaethau arbenigol plant a swyddogion lles. Mae hyn yn diwallu anghenion carfan benodol o ddisgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n dda gydag ysgol gyfagos i rannu adnoddau ac i sicrhau gwerth am arian megis rhannu bws i fynd i wersi nofio, a llogi canolfan awyr agored ar y cyd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r disgyblion ac fe wneir defnydd effeithiol o amser ac arbenigedd y staff. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda iawn fel tîm. Mae'r staff ategol yn gryfder yn yr ysgol ac maent yn cael effaith ar gyflawniad y disgyblion.

Mae'r athrawon yn defnyddio amser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol ac mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol sy'n ymwneud â baich gwaith athrawon.

Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau sy'n cael eu rheoli'n briodol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu rheoli a'u cadw'n dda.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi data mewn ysgolion pan fo carfannau o ddisgyblion yn fach ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 yn y dangosydd pynciau craidd (sef cyfuniad o Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn unigol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 3 ac uwch yn y Gymraeg yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn 3 allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Er hynny, nid oes un disgybl wedi cyrraedd lefel 3 ac uwch mewn mathemateg na gwyddoniaeth yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

O gymharu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio rhad ac am ddim, mae cyflawniad y disgyblion wedi amrywio o'r 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae cyflawniadau disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pynciau craidd (sef cyfuniad o Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyflawniad y disgyblion ym mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyrraedd lefel 5 ac uwch mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg na Gwyddoniaeth dros y pedair blynedd ddiwethaf.

O gymharu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio rhad ac am ddim, mae cyflawniad y disgyblion wedi amrywio o'r 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg. Mae cyflawniad y disgyblion dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio o'r 50%-25% uchaf i'r 25% isaf mewn mathemateg tra mae cyflawniad y disgyblion wedi amrywio o'r 50% isaf i'r 25% isaf mewn gwyddoniaeth.

Nid oes tueddiadau amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched nac ychwaith rhwng disgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim a gweddill y garfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'r 17 ymateb a gafwyd gan y disgyblion yn gadarnhaol iawn.

Mae pob un o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod at bwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd;
- bod y gwaith cartref yn helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith;
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith; a bod
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio

#### Ymateb i holiaduron y rhieni

Cafwyd 14 ymateb gan rieni i'r holiaduron.

Roedd pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- i'w plentyn gael cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yr ysgol a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau;
- bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- eu bod yn cael gwybodaeth cyson am gynnydd eu plentyn;
- yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a'u bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;

- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a
- bod eu plentyn wedi'i baratoi yn dda ar gyfer symud ymlaen i; r ysgol nesaf, goleg neu waith;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Anwen Griffith	Arolygydd Cofnodol
Michael Hayes	Arolygydd Tîm
Alan Parry	Arolygydd Lleyg
Eleri Edwards	Arolygydd Cymheiriaid
Bethan Hughes	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

#### Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

#### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

#### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.